Y Petha' Bychain

Maen nhw'n byw yn enwa' hen bentrefi Cymru,
Mae 'na un yn sownd ym mhob un Llan.
Twrog,Teilo, Cadfan, Beuno, Padarn, Non:
Mae 'na seintia' ym mhob man.

Ond mae 'na sant o'r enw Dewi,
Mae o'n llawer mwy na'r lleill i gyd.
Mae'i ffon o'n hir, mae'i farf o'n fawr,
Ond pethau bach sy'n mynd â'i fryd.

"Cofiwch am y petha' Bychain"
Meddai Dewi Sant o hyd.

Y smotia' ar gefn y fuwch goch gota,
Sgidia' morgrug, a llwch lli,
Twll y nodwydd, pen y pin,
A min fy mhensal i.

Briwsion bara brith, a hedyn mwstard,
Y llgodan, nid yr eliffant,
Dail a sêr a thywod mân,
Nid sŵn telyn ond sŵn tant.

"Cofiwch am y petha' Bychain"
Ydi neges Dewi Sant.

Ysgol Y Groeslon gyda chymorth Twm Morys
Cae'r Gors: Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts, 29/02/08